



Cwm Taf Morgannwg
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Regional Partnership Board

MEYSYDD BLAENORIAETH IECHYD MEDDWL A LLESIANT:

Creu System Sy'n Gweithio

Darparu ymagwedd 'system gyfan' well at gymorth iechyd meddwl.

Hoffem ddod â phobl sydd â phrofiadau byw a gweithwyr proffesiynol ynghyd i ddatblygu dull a fydd yn gwella'r system iechyd meddwl yn ei chyfanrwydd, yn hytrach na meysydd ynysig.

Drwy'r gwaith hwn, rydyn ni'n gobeithio:

- Deall yn well gwmpas ac angen cymorth iechyd meddwl ar hyn o bryd, o gymorth ataliol i arbenigol.
- Uwchsgilio staff / gweithwyr proffesiynol ar draws y rhanbarth fel y gallant gefnogi pobl (yn briodol) i gael iechyd meddwl a llesiant da.
- Gwella cefnogaeth arbenigol i'r rhai sy'n profi problemau iechyd meddwl.



BETH SY'N BWYSIG I BOBL Â PHROBLEMAU IECHYD MEDDWL?

Hoffai pobl â phroblemau iechyd meddwl weld gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ddiwallu anghenion person, o'r cyfnod cyn-diagnosis i'r ôl-ddiagnosis.

Wrth i wasanaethau gydweithio a chyfeirio'n effeithiol i ddiwallu anghenion y person cyfan, gellir newid agweddau systemig i edrych y tu hwnt i feini prawf diagnosis neu atgyfeirio, a datblygu dealltwriaeth o amgylchiadau sefyllfaol fydd yn helpu i nodi materion sylfaenol sydd wedi arwain at neu waethygu amrywiaeth o faterion iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:

- Gweithio gyda'r 'Bwrdd Ynghyd Dros Iechyd Meddwl' i gefnogi'u cynllunio a'u darpariaeth.

PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?

- Gwell ymwybyddiaeth o'r angen am gefnogaeth ar draws y system.
- Cefnogaeth i deuluoedd wrth iddyn nhw aros am ddiagnosis.
- Llai o amser aros ar gyfer diagnosis niwroddargyfeirio.



DYWEDODD POBL

Alla i ddim disgyn rhwng y craciau os nad ydyn nhw yno."